# Wnes i Ddim Meddwl!
# Gweithgareddau Dilynol ar gyfer Athrawon

Mae gweithgareddau dilynol Wnes i Ddim Meddwl! yn rhoi cyfleoedd i'r disgyblion gyflawni canlyniadau dysgu Cyfnod Allweddol 2 o'r Fframwaith ABCh i bobl ifanc rhwng 7 a 19 yng Nghymru a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol 2013. Nid yw'r gweithgareddau isod yn ddilynol ond yn hytrach yn ddewislen i athrawon.

| **Gweithgareddau dilynol Wnes i Ddim Meddwl!** | **Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd** | **Cysylltiadau gyda'r Fframwaith ABCh i bobl ifanc rhwng 7 a 19 yng Nghymru** | |
|---|---|---|---|
| | | **Sgiliau** | **Ystod** |
| 1. Gweithgaredd Rhagarweiniol | | | |
| 2. Cofnod Dyddiadur | Ll(Y)ydd<br>Ll(Y)s&th<br>Ll(Y)i<br>Ll(Y)casll | • Mynegi eu teimladau a'u barn yn hyderus drwy ystod o ddulliau priodol | • Deall amrediad eu teimladau ac emosiynau eu hunain ac eraill. |
| 3. Chwarae Rôl | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br>Ll(D)d&d<br>Ll(D)y&d | • Mynegi eu teimladau a'u barn yn hyderus drwy ystod o ddulliau priodol | • Datblygu parch tuag atynt eu hunain ac eraill<br>• Bod yn onest a theg a pharchu rheolau, y gyfraith ac awdurdod |
| 4. Amser Cylch | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th | • Cyfrannu at drafodaeth ddosbarth a chymryd rhan mewn dadleuon.<br>• Dangos empathi gyda phrofiadau a theimladau pobl eraill | • Deall bod i weithredoedd personol ganlyniadau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5. Cardiau Sefyllfa | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br>Ll(D)sd | • Mynegi eu teimladau a'u barn yn hyderus drwy ystod o ddulliau priodol | • Datblygu parch tuag atynt eu hunain ac eraill<br>• Deall bod i weithredoedd personol ganlyniadau |
| 6. Cardiau Snap ASBO | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br>Ll(D)sd<br>Ll(D)d&d<br>Ll(D)y&d | • Nodi cysylltiadau rhwng achos ac effaith. Mynegi eu safbwyntiau a'u syniadau yn hyderus | • Datblygu parch tuag atynt eu hunain ac eraill<br>• Archwilio eu gwerthoedd personol<br>• Bod yn onest a theg a pharchu rheolau, y gyfraith ac awdurdod |
| 7. Arolwg Llun | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br>Ll(Y)ydd<br>Ll(Y)i<br>Ll(Y)casll | • Darganfod a datblygu gwybodaeth a syniadau | • Deall sut y gall yr amgylchedd gael ei effeithio gan y penderfyniadau a wnawn fel unigolion neu ar y cyd |
| 8. Ardaloedd Lleol â Phroblem | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th | • Mynegi eu teimladau a'u barn yn hyderus drwy ystod o ddulliau priodol | • Pwysigrwydd diogelwch personol<br>• Deall bod i weithredoedd personol ganlyniadau |
| 9. Rheolau Aur | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br>Ll(Y)ydd | • Cydweithio i ddatrys problemau | • Bod yn onest a theg a pharchu rheolau, y gyfraith ac awdurdod |

## 1. Gweithgaredd Rhagarweiniol

Fel rhagarweiniad i 'gysylltu' gyda'r dysgu blaenorol, adolygwch wers y swyddog.

## 2. Cofnod Dyddiadur

Gweithgaredd llythrennedd disgybl unigol yw hwn. Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu cofnod dyddiadur ar gyfer un o'r cymeriadau canlynol:

Ricky
Mam Ricky
Dawn
Tad Dawn
Ffrind Ricky

Mae amlinelliad (2a) wedi ei ddarparu i'r disgyblion ei ddefnyddio.

## 3. Chwarae Rôl

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau a rhowch senario chwarae rôl (3a) i bob grŵp er mwyn ysgogi chwarae rôl. Y senarios a gyflwynir yw:

- **Fe wnaeth Ricky feddwl!**
- **Mam a Dawn yn cyfarfod**
- **Gorfod aros gartref!**
- **Y botel wedi torri**
- **Y ffrae fawr!**

Gall yr athro/athrawes ddatblygu ymatebion y disgyblion er mwyn annog y dosbarth i ystyried ymddygiad parchus a chyfrifol. Wedyn gellir datblygu rhagor o weithgareddau chwarae rôl lle mae'r disgyblion yn actio sefyllfaoedd pan fyddant wedi gweithredu mewn modd rhesymol a chyfrifol.

## 4. Amser Cylch – Canlyniadau yn y Dyfodol

Dangoswch y clip DVD (4,a) stori wir, Canlyniadau Pellach. Mae actor yn chwarae Ricky yn 18 oed. Mae'r clip yn para tua tri munud. Mae Ricky yn siarad am effeithiau gwneud y penderfyniadau anghywir a bod canlyniadau difrifol i gael ASBO.
Arweiniwch y disgyblion mewn trafodaeth amser cylch yn canolbwyntio ar yr hyn y maent wedi ei weld.
Rhai pwyntiau trafod i'w hystyried fyddai:

- Nid oedd Ricky yn meddwl ei fod yn gwneud dim o'i le
- Collodd ei gariad
- Roedd yn unig oherwydd ni allai fynd allan gyda'i ffrindiau
- Roedd aros i mewn drwy'r amser yn ddiflas
- Golygodd y cyrffiw na allai aros allan gyda'i deulu a'i ffrindiau
- Sut brofiad yw mynd i garchar a chael record droseddol

Atgoffwch y disgyblion am y DVD y buont yn ei gwylio yng ngwers y swyddog a'r sefyllfa yr oedd Ricky ifanc ynddi pan gyrhaeddodd y llythyr ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy ei ddrws.

Beth all ddigwydd nesaf i'r Ricky ifanc? Archwiliwch a thrafodwch y dewisiadau sydd ganddo.

**<u>Nodyn i Athrawon: Datrysiad Cymunedol – Datrysiad Gwarediadau Ieuenctid</u>**

Nid yw Datrysiad Cymunedol yn statudol ond yn hytrach yn arddull gwahanol i ddeilio gyda troseddu llai difrifol.
Galluoga hyn i'r heddlu fedru defnyddio eu barn broffesiynol pan yn delio â throseddwyr. Gelli'r cael ei ddefnyddio ar gyfer troseddau megis anrhefn cyhoeddus lefel isel, difrod troseddol, lladrad â mân ymosodiadau. Nôd Datrysiad Cymunedol yw galluogi dioddefwyr i gael datrysiad a therfyn sydyn i'r mater. Yn ogystal, caiff y troseddwyr gyfiawnder prydlon. Bydd llai o fiwrociaeth i'r swyddogion heddlu.
**<u>Sut mae hyn yn edrych yn ymarferol?</u>**
Gwneud yn iawn am y drosedd:
Efallai bydd y troseddwr yn:

- ymddiheuro i'r dioddefwr
- talu iawndal, neu
- gywiro unrhyw ddifodd

Adsefydlu: Efallai bydd y troseddwr yn:

- Mynychi cwrs triniaeth cyffuriau neu alcohol

Cosbol: Efallai bydd y troseddwr yn:

- talu difrwy am ddifrod
- gwneud gwaith di-dal (gwasanaeth cymunedol)

## 5. Cardiau Sefyllfa

Nod y gweithgaredd hwn yw i'r disgyblion ddeall ei bod yn anghywir i ymddwyn mewn modd gwrthgymdeithasol.

Rhannwch y dosbarth yn 5 grŵp a rhowch gerdyn sefyllfa (5a) i bob grŵp i'w drafod ac ateb y gyfres o gwestiynau.

## 6. Cardiau Snap ASBO

Nod y gweithgaredd hwn yw i'r disgyblion ddeall canlyniadau ymddwyn yn amhriodol. Ar ddechrau'r wers gofynnwch y cwestiynau canlynol i'r disgyblion, a thrafodwch yr atebion fel dosbarth.

- Beth yw ymddygiad gwrthgymdeithasol?
- Pam fod pobl yn ymddwyn mewn modd gwrthgymdeithasol?
- Beth ydych chi'n feddwl yw canlyniadau ymddygiad gwrthgymdeithasol?

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau a dosbarthwch set o gardiau snap ASBO (6a) i bob grŵp. Bydd un disgybl yn darllen yr hyn sydd ar y cerdyn i weddill y grŵp. Fel grŵp, cyfatebwch yr ymddygiad negyddol gyda'r cerdyn ASBO priodol (cardiau ateb isod). Mae'r cerdyn cosb ASBO yn egluro'r gosb am ymddygiad amhriodol. Er mwyn i'r disgyblion ddeall canlyniadau ymddwyn yn amhriodol, gofynnwch i bob grŵp lunio diagram gwe yn nodi sut y byddent yn teimlo os taw hwy fyddai'r dioddefwyr. Gellir cadarnhau'r atebion drwy ddefnyddio'r PowerPoint (6.b).

Gofynnwch i'r dosbarth adrodd yn ôl fel sesiwn dosbarth cyfan.

## 6. Cardiau Snap ASBO - Atebion

| | |
|---|---|
| Mae bachgen ifanc allan ar y stryd am naw o'r gloch yn nos. Mae'n curo ar ddrysau ei gymdogion ac yna'n rhedeg i ffwrdd. | Ar ôl siarad gyda'r heddlu lleol, mae rhieni y bachgen yn gwneud iddo ymddiheuro ac yn ei wahardd i fynd allan, er mwyn ei rwystro rhag amharu ar ei gymdogion..<br>O hyn ymlaen mae'n rhaid iddo fod adref erbyn 7 o'r gloch bob nos am y chwe mis nesaf. |

| | |
|---|---|
| Mae grŵp o 6 o blant yn cicio'u sodlau ac yn gwneud llawer o sŵn ar gornel stryd. Mae menyw sy'n byw yn un o'r tai yn gofyn iddynt symud, ond mae'r plant yn ei hanwybyddu. | Nawr mae'n rhaid i'r plant gael eu hatal rhag ymwneud â'i gilydd. Os bydd mwy na dau blentyn o gwmpas y lle gyda'i gilydd, bydd yr heddlu'n mynd â nhw adref am weddill y diwrnod. |
| Mae bachgen yn ei arddegau yn reidio ei feic modur i fyny ac i lawr y stryd lle mae llawer o blant ifanc yn chwarae. Mae'r plant yn cael ofn ac maent i gyd yn mynd adref. Mae'r beic modur yn aros yn y stryd am y rhan fwyaf o'r dydd, felly mae'r plant yn aros i mewn. | Mae'r heddlu yn atafaelu beic modur y bachgen. Nid yw'n ei gael yn ôl am 3 mis. Os bydd yn reidio ei feic yn anghyfreithlon eto yn y stryd, atafaelir y beic am 12 mis. |
| Mae grŵp o rai yn eu harddegau yn y parc lleol. Maent yn yfed alcohol ac yn fandaleiddio'r lle. Mae rhai o'r bechgyn yn tynnu ar fariau'r bandstand ac mae'r bariau'n dechrau plygu, mae'r gât eisoes wedi cael ei rhwygo i ffwrdd. | Cymerir yr alcohol oddi ar y rhai yn eu harddegau. Rhoddir dirwy i bob un a ddelir yn fandaleiddio am y difrod a achoswyd ganddynt. Fe'u gorfodir hefyd o wneud y parc i edrych yn dda unwaith yn rhagor drwy blannu blodau a chlirio'r sbwriel. |
| Mae yna barc bach ar gyfer plant ifanc. Yn y parc mae rhai plant yn cael eu gorfodi oddi ar y siglenni gan blant hŷn, maent hefyd yn galw enwau cas arnynt. Nawr mae'r plant hŷn yn rhoi'r siglenni'n sownd wrth y bariau uchaf fel na all neb chwarae arnynt. | Byddai'r heddlu yn mynd â'r plant hŷn adref o'r parc ac ni fyddent yn cael chwarae yn y parc mwyach. Os gwelir hwy yn y parc eto, bydd yr heddlu yn mynd â nhw adref i dreulio gweddill y diwrnod gartref. |

## 7. Arolwg Llun

Mewn grwpiau, y disgyblion i gynnal arolwg o'r ardal yn/o amgylch yr ysgol gan dynnu lluniau o'r holl enghreifftiau o ymddygiad gwrthgymdeithasol y gallant ddod o hyd iddynt. Yn y dosbarth maent yn defnyddio'r lluniau i drafod:

- Sut mae hyn yn effeithio arnoch CHI?
- Beth fyddech chi'n ei wneud i atal hyn rhag digwydd?
- Sut allech chi wella'r ysgol?

Gellir defnyddio canlyniadau'r arolwg i

1. Ganfod y math mwyaf cyffredin o fandaliaeth. Yna gallai'r disgyblion greu poster gwrth-fandaliaeth gyda slogan bachog i'w arddangos o gwmpas yr ysgol e.e. Mae'n sgandal bod yn fandal
2. Creu siart yn rhestru 10 pwynt a fyddai'n annog plant eraill i wneud eu hamgylchedd yn lle mwy pleserus e.e.
    - *Dim sbwriel, Defnyddiwch y bin*
    - *Mae graffiti yn hyll - Peidiwch â'i wneud!*

## 8. Ardaloedd Lleol â Phroblem

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach a rhwch 2 neu 3 llun o'r set o luniau a ddarparwyd (8a) i bob grŵp.
Rhowch gopi o'r Cwestiynau Ardal Leol â Phroblem (8b) i bob grŵp.
Gofynnwch i'r disgyblion drafod y cwestiynau ac adrodd yn ôl eu hymatebion i'r dosbarth yn eu tro.
Datblygwch eu hatebion i ystyried effaith unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol fel yr enghreifftiau yn y lluniau.
Noder, pan fyddant mewn grŵp - mae effaith unrhyw ymddygiad yn fwy a gall beri bygythiad ac ofn i eraill - yn enwedig yr henoed, teuluoedd gyda phlant ifanc, plant eraill a phobl ifanc nad yw'r grŵp yn eu hadnabod, pobl sy'n byw gerllaw ac ati.

*Noder: Byddai'n ddefnyddiol i'r athro/athrawes gael rhywfaint o wybodaeth i'w dosbarthu am glybiau a gweithgareddau a lle gall pobl ifanc fynd yn yr ardal leol.*

Neu, rhowch setiau llawn o'r lluniau i'r grwpiau a gofynnwch i'r disgyblion eu didoli'n ddau bentwr - y mannau hynny sy'n lleoedd da i gwrdd â ffrindiau a'r mannau hynny sy'n lleoedd drwg i gwrdd â ffrindiau.
Yn ystod yr adborth gofynnwch i'r disgyblion gyfiawnhau eu dewisiadau.

## 9. Rheolau Aur

Gofynnwch i'r disgyblion ddyfeisio set o "Rheolau Aur Cymunedol" i rannu gyda gweddill yr ysgol yn eu Gwasanaeth Dosbarth: 'Yn ein Cymuned fe fyddwn yn ....'

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
HEDDLU
POLICE